


Emynau a Darlleniadau



Cadeirlan Deiniol Sant
ym Mangor
Saint Deiniol's Cathedral
in Bangor

Cymun Bendigaid ar Gân

Y Trydydd Sul ar Ddeg wedi'r Drindod • 30 Awst 2026

Gosodiad

Offeren i Dri Llais, William Byrd (c.1540-1623)

Llywydd

Deon Manon

Pregethwraig

Canon Tracy

Emyn Agoriadol

O tyred i'n gwaredu, Iesu da,
fel cynt y daethost ar dy newydd wedd,
a'r drysau 'nghau, at rai dan ofnus bla,
a'u cadarnhau â nerthol air dy hedd:
llefara dy dangnefedd yma nawr
a dangos inni greithiau d'aberth mawr.

Yn d'aberth di mae'n gobaith ni o hyd,
ni ddaw o'r ddaear ond llonyddwch brau;
o hen gaethiwed barn rhyfeloedd byd
hiraethwn am y cymod sy'n rhyddhau:
tydi, Gyfryngwr byw rhwng Duw a dyn,
rho yn ein calon ras i fyw'n gytûn.

Cyd-fyw'n gytûn fel brodyr fyddo'n rhan,
a'th gariad yn ein cynnal drwy ein hoes;
na foed i'r arfog cry' orthrymu'r gwan,
ac na bo grym i ni ond grym y groes:
rhag gwae y dilyw tân, O trugarha
a thyred i'n gwaredu, Iesu da.

Geiriau

John Roberts (1910-1984)

Cerddoriaeth | "Bro Aber"

John Haydn Phillips (1917-1985)

Gloria in excelsis Deo

Cân ogoniant i'r goruchaf,
datgan hedd i blant y llawr.
Arglwydd Dduw, ein Brenin nefol,
hollalluog Arglwydd lôr!
Ti fendithiwn, ti addolwn,
gogoneddwn, molwn di:
cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Crist ein Harglwydd, Fab y Tad,
Arglwydd Dduw, y dwyfol Oen;
ti sy'n dwyn ein holl bechodau,
dy drugaredd rho i ni.
Gorseddedig ar ddeuheulaw'r
Hollalluog, clyw ein cân,
cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Ti yn unig sydd yn sanctaidd,
ti yn unig yw yr lôr,
ti yn unig sy'n oruchaf,
Iesu Grist, ein Harglwydd Dduw.
Gyda'r Ysbryd ti wyt Un,
yng ngogoniant y Duw Dad,

cân ogoniant i'r Goruchaf —
Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

Geiriau | Words

Gillian Williams

Cerddoriaeth | Music | "Blaenwern"

William Penfro Rowlands (1860-1937)

Colect

Hollalluog Dduw, a elwaist dy Eglwys i
dystiolaethu dy fod ti yng Nghrist yn cymodi'r
byd â thi dy hun, cynorthwya ni i gyhoeddi
newyddion da dy gariad, fel y denir pawb sy'n ei
glywed atat ti; trwyddo ef a ddyrchafwyd ar y groes,
ac sy'n teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw,
yn awr a hyd byth. Amen.

Salm 26:1-8



Y Dy dŷ, O Dduw, a hoffa'th was,
lle mae dy ras yn trigo.

R Dy dŷ, O Dduw, a hoffa'th was,
lle mae dy ras yn trigo.

Barna fi, O ARGLWYDD, oherwydd rhodiais yn gywir
ac ymddiried yn yr ARGLWYDD heb ballu. Chwilia fi,
ARGLWYDD, a phrofa fi, rho brawf ar fy nghalon a'm
meddwl. R

Oherwydd y mae dy ffyddlondeb o flaen fy llygaid,
ac yr wyf yn rhodio yn dy wirionedd. Ni fûm yn
eistedd gyda rhai diwerth, nac yn cyfeillachu gyda
rhagrithwyr. R

Yr wyf yn casáu cwmni'r rhai drwg, ac nid wyf yn
eistedd gyda'r drygionus. Golchaf fy nwylo am fy
mod yn ddieuog, ac amgylchaf dy allor, O ARGLWYDD.
R

Canaf yn uchel mewn diolchgarwch ac adrodd dy holl
ryfeddodau. O ARGLWYDD, yr wyf yn caru'r tŷ lle'r wyt
yn trigo, y man lle mae dy ogoniant yn aros. R

Cerddoriaeth

Heinrich Schütz (1585-1672); tr. Sam Jones

Rhufeiniaid 12:9-21

Bydded eich cariad yn ddiragrith. Casewch
ddrygioni. Glynwch wrth ddaioni. Byddwch
wresog yn eich serch at eich gilydd fel
cymdeithas. Rhowch y blaen i'ch gilydd mewn
parch. Yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich
ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd. Llawnhewch
mewn gobaith. Safwch yn gadarn dan orthrymder.
Daliwch ati i weddio. Cyfrannwch at reidiau'r saint,
a byddwch barod eich lletygarwch. Bendithiwch y
rhai sy'n eich erlid, bendithiwch heb felltithio byth.
Llawnhewch gyda'r rhai sy'n llawenhau, ac wylwch
gyda'r rhai sy'n wylo. Byddwch yn gytûn ymhlith

eich gilydd. Gochelwch feddyliau mawr-eddog; yn hytrach, rhodiwch gyda'r distadl. Peidiwch â'ch cyfrif eich hunain yn ddoeth. Peidiwch â thalu drwg am ddrwg i neb. Bydded eich amcanion yn anrhydeddus yng ngolwg pawb. Os yw'n bosibl, ac os yw'n dibynnu arnoch chwi, daliwch mewn heddwch â phawb. Peidiwch â mynnu dial, gyfeillion annwyl, ond rhowch ei gyfle i'r digofaint dwyfol, fel y mae'n ysgrifenedig: "Myfi piau dial, myfi a dalaf yn ôl," medd yr Arglwydd." Yn hytrach, os bydd dy elynion yn newynu, rho fwyd iddynt; os byddant yn sychedu, rho iddynt beth i'w yfed. Os gwnei hyn, byddi'n pentyrru marwor poeth ar eu pennau. Paid â goddef dy drechu gan ddrygioni. Trecha di ddrygioni â daioni.

Mathew 16:21-28

O'r amser hwnnw y dechreuodd Iesu ddangos i'w ddisgyblion fod yn rhaid iddo fynd i Jerwsalem, a dioddef llawer gan yr henuriaid a'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion, a'i ladd, a'r trydydd dydd ei gyfodi. A chymerodd Pedr ef a dechrau ei geryddu gan ddweud, "Na ato Duw, Arglwydd. Ni chaiff hyn ddigwydd i ti." Troes yntau, a dywedodd wrth Pedr, "Dos ymaith o'm golwg, Satan; maen tramgwydd ydwynt imi, oherwydd nid ar bethau Duw y mae dy fryd ond ar bethau dynol." Yna dywedodd Iesu wrth ei ddisgyblion, "Os myn neb ddod ar fy ôl i, rhaid iddo ymwadu ag ef ei hun a chodi ei groes a'm canlyn i. Oherwydd pwy bynnag a fyn gadw ei fywyd, fe'i cyll, ond pwy bynnag a gyll ei fywyd er fy mwyn i, fe'i caiff. Pa elw a gaiff rhywun os ennill yr holl fyd a fforffedu ei fywyd? Neu beth a rydd rhywun yn gyfnewid am ei fywyd? Oherwydd y mae Mab y Dyn ar ddyfod yng ngogoniant ei Dad gyda'i angylion, ac yna fe dâl i bob un yn ôl ei ymddygiad. Yn wir, 'rwy'n dweud wrthyh, y mae rhai o'r sawl sy'n sefyll yma na phrofant flas marwolaeth nes iddynt weld Mab y Dyn yn dyfod yn ei deyrnas."

Emyn yr Offrwm

A i gwir y gair fod elw i mi
yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
A gollodd ef ei waed yn lli
dros un a'i gyrrodd ef i'w groes?
Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
y buost farw i mi gael byw?

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,
a rho golofn niwl y dydd;
dal fi pan fwy'n teithio'r mannau
geirwon yn ffordd y sydd;
rho im fanna, rho im fanna
fel na bwyf yn llwfwrhau,
fel na bwyf yn llwfwrhau.

Agor y ffynhonnau melys
sydd yn tarddu o'r graig i maes;
'r hyd yr anial mawr canlyned
afon iachawdwriaeth gras;
rho im hynny, rho im hynny:
dim i mi ond dy fwynhau,
dim i mi ond dy fwynhau.

**Ymddiriedaf yn dy allu,
mawr yw'r gwaith a wnest erioed:
ti gest angau, ti gest uffern,
ti gest Satan dan dy droed:
pen Calfaria, pen Calfaria
nac aed hwnnw byth o'm cof,
nac aed hwnnw byth o'm cof.**

Geiriau

William Williams, Pantycelyn (1717-1791)

Cerddoriaeth | "Capel y Ddôl"

Joseph David Jones (1827-1870)

Emyn Ôl-Gymun

A i gwir y gair fod elw i mi
yn aberth Crist a'i werthfawr loes?
A gollodd ef ei waed yn lli
dros un a'i gyrrodd ef i'w groes?
Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
y buost farw i mi gael byw?
Rhyfeddol ras: pa fodd, fy Nuw,
y buost farw i mi gael byw?

Dirgelwch oll: rhoi Duw mewn bedd,
pwy all amgyffred arfaeth lôr?
Pen seraff nef y ddawn ni fedd
i blymio cariad fel y môr:
trugaredd rad, addoled byd
ac aed angylion nef yn fud.
Trugaredd rad, addoled byd
ac aed angylion nef yn fud.

O fainc ei Dad i barthau'r llawr
daeth ef o'i ras anfeidrol hael,
gwacáu pob peth ond cariad mawr,
rhoi'i waed dros hil syrthiedig, wael.
Trugaredd rad, fe glywodd gri
a daeth fy Nhad o hyd i mi!
Trugaredd rad, fe glywodd gri
a daeth fy Nhad o hyd i mi!

Bu f'ysbryd caeth dan orthrwm hir
fy mehod cas a th'wyllwch byd;
o'th lygad daeth rhyw fflachiad clir,
deffrois a'm cell yn olau i gyd;
heb gyffion 'rwyf, a'm traed yn rhydd:
dy ddilyn wnaif o ddydd i ddydd.
Heb gyffion 'rwyf, a'm traed yn rhydd:
dy ddilyn wnaif o ddydd i ddydd.

Dim damnedigaeth ofnaf nawr;
cans Crist i mi yw'r cwblw mwy:
'rwy'n byw yng Nghrist, fy Mrenin mawr,
a'm gwisg, cyfiawnder dwyfol glwy';
i'r orsedd af a hawlio'n hy,
drwy haeddiant Crist, y goron fry.
I'r orsedd af a hawlio'n hy,
drwy haeddiant Crist, y goron fry.

Geiriau

Charles Wesley (1707-1788); cyf. E. H. Griffiths

Cerddoriaeth | "Sagina"

Thomas Campbell (1800-1876)